
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig

## ADRODDIAD CYNNYDD 2022-2024















OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52989, ISBN digidol 978-1-80633-655-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Dyma'r pumed Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a gynhyrchir gan y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (y Grŵp Llywio). Ei brif bwrpas yw darparu diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â chyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yng Nghamau Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer 2022-2024 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel Camau Gweithredu 2022-2024). Roedd Camau Gweithredu 2022-2024 yn dwyn ynghyd camau gweithredu lefel rhwydwaith â blaenoriaeth er mwyn gwella'r broses o reoli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA), ac felly gwella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith MPA yng Nghymru. Roedd pob cam gweithredu yn cefnogi o leiaf un o'r pum egwyddor reoli a nodwyd yn Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Fframwaith). Mae'r Fframwaith yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer rheoli'r rhwydwaith MPA yng Nghymru, ac mae'r Cynllun Gweithredu yn adnodd allweddol i Awdurdodau Rheoli lywio'r broses o gyflawni'r weledigaeth hirdymor ar gyfer rheoli'r rhwydwaith:

> *Mae rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru o dan reolaeth effeithiol a chyson sy'n diogelu bywyd gwyllt a chynefinoedd morol safleoedd, gan arwain at gyflawni neu gynnal cyflwr ffafriol nodweddion safleoedd. Mae'r gwaith o reoli'r rhwydwaith yn cefnogi ecosystemau morol gwydn sydd, yn eu tro, yn helpu i greu moroedd glân, diogel, iach, cynaliadwy, cynhyrchiol a biolegol amrywiol yng Nghymru. Mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu gwerthfawrogi am y buddion hirdymor y maen nhw'n eu darparu i bobl Cymru, trwy amddiffyn eu treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog.*

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cynnwys manylion allbynnau a chanlyniadau gweithgareddau rheoli, ac yn ystyried sut mae camau gweithredu yn cyfrannu at wella'r modd y rheolir MPA ac at wella neu gynnal drwy hynny gyflwr y rhwydwaith MPA gan gefnogi'r weledigaeth hon. Mae'n gyfle hefyd i sefydliadau dynnu sylw at waith sydd wedi cael ei wneud ar lefel y rhwydwaith ac ar lefel leol sy'n ategu camau gweithredu Awdurdodau Rheoli[1]. Wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn, mae'r Grŵp Llywio wedi ystyried sut mae'n gallu asesu a chloriannu'n well cyfraniad y camau gweithredu at gyflwr cyffredinol y rhwydwaith MPA yng Nghymru.

#### Strwythur yr Adroddiad

Mae Awdurdodau Rheoli wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu cynnydd tuag at gyflawni pob un o'u camau gweithredu ers y Cynllun Gweithredu blaenorol. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r camau gweithredu a'r allbynnau a'r canlyniadau ar gyfer pob un, gan ddod â'r iteriad hwn o'r Fframwaith i ben. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru **www.llyw.cymru/ardaloedd-morol-gwarchodedig-0**.

#### Camau Gweithredu yn y Dyfodol

Mae Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn amlinellu'r strwythur ar gyfer gwella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2018-2023. Hefyd, mae'n sylfaen ar gyfer asesu ceisiadau Cynllun Grant Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Llywodraeth Cymru, ac mae'n ceisio sicrhau cysondeb â gofynion rheoli ac adrodd ehangach y DU, rhanbarthol a rhyngwladol. Mae'r Fframwaith yn cwmpasu cylch pum mlynedd ac erbyn hyn mae angen diweddariad ar gyfer ei iteriad nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur gydlynu'r gwaith o adolygu a diweddaru'r Fframwaith er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben, yn adlewyrchu cynnydd a newidiadau mewn sbardunau polisi ers 2018, ac yn adlewyrchu dyheadau ar gyfer rhwydwaith MPA Cymru yn y dyfodol.

---

1 Term a ddefnyddir i gyfeirio ar y cyd at sefydliadau sydd â chyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag unrhyw fath o MPA, neu sy'n dirfeddianwyr gwely'r môr neu arfordirol arwyddocaol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau perthnasol a chymwys fel y'u diffinnir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth (2017) ac awdurdodau cyhoeddus fel y'u diffinnir gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).) Gweler Atodiad 3 o'r Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig am restr o Awdurdodau Rheoli yng Nghymru: **www.llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchodedig-cymru**

# Cynllun Gweithredu Rhwydwaith MPA 2022-2024 – Crynodeb o'r Cynnydd:

**Integreiddio rheolaeth gynaliadwy o'r rhwydwaith MPA gyda phroses a chyflawniad y Datganiad Ardal**

**Sefydliad Arweiniol:** Cyfoeth Naturiol Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli MPA wedi'i ymgorffori yn y **Datganiadau Ardal**, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020.

Bydd cyflawni mewn perthynas â Datganiadau Ardal yn canolbwyntio ar gamau gweithredu amrywiol sy'n berthnasol i reoli ardaloedd MPA ledled Cymru. Roedd llawer o'r camau perthnasol eisoes wedi'u hymwreiddio yng **Nghynllun Gweithredu Rheoli'r Rhwydwaith MPA 2021-22**.

Yn ystod 2021-22, roedd y pwyslais ar ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn cytuno ar gamau ar y cyd a rhoi'r themâu a nodwyd ar waith:

- Datrysiadau ac addasiadau yn seiliedig ar natur yn y parth arfordirol.
- Cefnogi'r gwaith o weithredu cynllunio morol; ac
- Adeiladu gwydnwch yr amgylchedd morol.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae CNC wedi parhau i gefnogi gwaith Llythrennedd Morol ledled Cymru drwy gefnogi grwpiau Llywio a Chynghrair Llythrennedd Moroedd Cymru (fel rhan o'r grŵp PMaA (Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru) ehangach).

Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd y grŵp **Strategaeth Llythrennedd Morol** i Gymru (Y Môr a Ni). Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ledled Cymru ynghyd â chwe maes gweithredu allweddol ar gyfer gwaith a chydweithio yn y dyfodol.

Hefyd, mae CNC wedi datblygu **animeiddiad Llythrennedd Morol** sy'n dangos y cysylltiad rhwng pob un ohonom a'r Môr gan helpu i gefnogi dau ddigwyddiad peilot "Gŵyl y Môr" (dan arweiniad Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru).

Mae CNC wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau o dan Rwydweithiau Natur gyda'r nod o wella rheolaeth a chyflwr ein Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru.

Yn ogystal, mae'r Datganiad Ardaloedd Morol yn parhau i gyhoeddi cylchlythyrau chwarterol i hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud gennym yn y timau Morol yn CNC ac ochr yn ochr â sefydliadau partner (**rhagor o wybodaeth yma**).

### Datblygu ymhellach rhaglen monitro morol seiliedig ar risg ledled y rhwydwaith MPA

**Sefydliad Arweiniol:** Llywodraeth Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CNC, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac arbenigwyr gwyddoniaeth a pholisi eraill er mwyn hwyluso gwaith monitro integredig, costeffeithiol. Bydd y gwaith monitro hwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau cadwraeth natur, yn darparu'r dystiolaeth i asesu a chanfod tueddiadau o ran iechyd ac amrywiaeth fiolegol ein moroedd, ac yn sylfaen i'r broses o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Tra bod y rhaglen newydd yn cael ei gweithredu, bydd y rhaglen fonitro bresennol yn parhau i gael ei chynnal.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Tra bod gwaith monitro statudol yn parhau, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio rhaglen fonitro ledled y DU yn seiliedig ar yr opsiynau monitro a nodwyd er mwyn cefnogi'r rhwydwaith MPA. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod sut i gyflawni hyn gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig.

## Rhaglen Gwella Cyflwr y Rhwydwaith MPA

**Sefydliad Arweiniol:** Cyfoeth Naturiol Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Mae'r rhaglen waith barhaus hon yn archwilio camau rheoli posibl, lle bo angen, i fynd i'r afael â phwysau a bygythiadau a nodwyd i'r rhwydwaith MPA.

Eleni bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar weithio gyda swyddogion rheoli lleol i ddatblygu prosiectau o gamau gweithredu presennol a rhai newydd, ac ar archwilio llwybrau cyllido posibl i gyflawni'r rhain y flwyddyn nesaf. Bydd prosiectau yn rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu sy'n gallu sicrhau gwelliannau i gyflwr y rhwydwaith neu sy'n gwella dealltwriaeth o'r pwysau a'r bygythiadau allweddol.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae Rhaglen Gwella Cyflwr y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael ei chyflwyno gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n adolygu camau rheoli safleoedd MPA, yn darparu cyngor, yn cyflwyno ac yn cefnogi prosiectau i wella cyflwr nodweddion morol ledled Rhwydwaith MPA Cymru. Rhwng 2022 a 2025 mae'r Rhaglen hon wedi canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

**Ansawdd Dŵr:** Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar gwblhau'r camau rheoli safleoedd, ac ar adolygu a nodi camau gweithredu newydd. Mae'r gwaith hwn wedi ategu ffrydiau gwaith ehangach CNC, gan gynnwys prosiectau sy'n cael eu cyflwyno o dan raglen Ansawdd Dŵr Cyfalaf Argyfwng Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â Dalgylchoedd Cyfle (2022-2025).

**Pysgodfeydd Morol:** Mae adolygiad strategol o gamau gweithredu pysgodfeydd morol mewn ardaloedd MPA wedi'i gwblhau a'i ddiweddaru ar sail allbynnau prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgodfeydd Cymru, gan ychwanegu camau gweithredu newydd lle bo angen.

**Safleoedd Tirlenwi ar yr Arfordir:** Yn 2022-2023, llwyddodd CNC i gyflwyno prosiect yn ymchwilio i effeithiau posibl safleoedd tirlenwi arfordirol yng Nghymru ar nodweddion MPA. Ariannwyd y prosiect hwn gan gynllun grant Grŵp Llywio Rheoli MPA Llywodraeth Cymru. Gan adeiladu ar y canfyddiadau cychwynnol, bydd prosiect yn cael ei gyflwyno fel rhan o raglen Rhwydweithiau Natur Cyfalaf Argyfwng Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru 2025-26, er mwyn gwella'r ddealltwriaeth hon mewn mannau penodol â phroblemau ar hyd arfordir Cymru.

**Astudiaethau Achos Rheoli MPA:** Mae un ar bymtheg o astudiaethau achos rheoli MPA wedi'u datblygu a'u rhannu â rheolwyr MPA a grwpiau cysylltiedig eraill. Mae'r astudiaethau achos hyn yn cwmpasu ystod o waith sy'n cael ei wneud gan CNC, Llywodraeth Cymru a'u partneriaid, gan hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth, tynnu sylw at heriau cyffredin ar draws prosiectau i a mynd i'r afael â nhw, a chefnogi dulliau cydweithredol o ddatblygu gwydnwch ecosystemau morol ledled y rhwydwaith MPA.

**Datblygu Prosiectau:** Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ddatblygu a chyflwyno 10 prosiect aml-flwyddyn gyda'r nod o wella cyflwr nodweddion morol mewn ardaloedd MPA yng Nghymru. Mae'r prosiectau wedi'u hariannu gan raglen Rhwydweithiau Natur Cyfalaf Argyfwng Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru (2022-2025).

Hefyd, mae CNC wedi bod yn datblygu cyfres o brosiectau newydd er mwyn parhau i wella'r Rhwydwaith MPA ledled Cymru. Bydd y broses o gyflwyno'r prosiectau yn dechrau yn 2025-2026 gan ddefnyddio cyllid rhaglen Rhwydweithiau Natur Cyfalaf Argyfwng Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiectau hyn yn ymgorffori tystiolaeth allweddol newydd, gan gynnwys asesiadau diweddar Cyfoeth Naturiol Cymru o gyflwr safleoedd morol Ewropeaidd Cymrus.

### Datblygu canllawiau cyson a chymesur er mwyn gwella cyngor ar waith achosion a helpu i roi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith

**Sefydliad Arweiniol:** Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Diben y gwaith hwn yw datblygu canllawiau er mwyn helpu i gynnal asesiadau cyson a chymesur o effeithiau gweithgareddau rheoledig ar nodweddion gwarchodedig ardaloedd MPA yng Nghymru.

Mae canllawiau yn cael eu datblygu er mwyn helpu i weithredu polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wrth wneud penderfyniadau e.e. trwyddedu morol a chanllawiau polisi-benodol.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae cynnydd wedi parhau yn raddol ac mae wedi cyflymu yn ddiweddar wrth i'r canllawiau presennol gael eu cynhyrchu a'u diweddaru. Mae enghreifftiau o ganllawiau sydd wedi'u cyhoeddi yn cynnwys:

- Gwybodaeth i gefnogi asesiadau amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau Ceblau Morol.
- Datganiad Sefyllfa ar aflonyddu ar ymddygiad llamidyddion oherwydd sŵn tanddwr.
- Datganiadau Sefyllfa yn ymwneud ag effeithiau datblygiadau morol ar famaliaid morol, eu marwolaethau ac uniondeb safleoedd.
- Adroddiadau ar asesiadau a gwybodaeth am asesu Gweithgareddau Dyframaethu Cymru.
- Asesiadau o brosesau ffisegol morol ac arfordirol.
- Diweddariadau ar gynnwys gwe yn ymwneud ag Ardaloedd Gwarchodedig Morol a Thrwyddedu Morol.
- Gwella'r broses o ymgeisio am Drwydded Forol Band 1.
- Canllawiau mewnol ar gyfer proses y drwydded forol dybiedig.

Hefyd, mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r tudalennau gwe yn ymwneud â chanllawiau morol a thrwyddedu morol sy'n ei gwneud hi'n haws llywio i adrannau penodol a pherthnasol.

Mae'r uchod ar gael ar dudalennau gwe canllawiau morol a thrwyddedu morol CNC:

www.naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/marine/?lang=cy

www.naturalresources.wales/permits-and-permissions/marine-licensing/?lang=cy

## Rheoli'r rhwydwaith MPA trwy brosesau caniatâd ac asesu rheoleiddiol

**Sefydliad Arweiniol:** Llywodraeth Cymru, pob awdurdod rheoli

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod caniatâd rheoleiddiol, prosesau asesu a gweithgarwch sy'n hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau yn ystyried yr effeithiau posibl ar y rhwydwaith MPA ac yn cynnwys mesurau lliniaru priodol lle bo angen.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Eleni mae CNC wedi parhau i benderfynu ar Drwyddedau Morol gan ystyried yr effeithiau posibl ar ardaloedd MPA wrth wneud pob penderfyniad. Lle bo angen, roedd mesurau lliniaru priodol wedi'u cynnwys fel amod/amodau yn y Trwyddedau Morol hyn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nifer o eithriadau i ddeddfwriaeth pysgodfeydd ar gyfer gwahanol enghreifftiau o ymchwil wyddonol. Roedd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer llawer o'r eithriadau hyn, ac roedd hwn yn cadarnhau na fyddai'r eithriadau yn cael unrhyw effaith ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig.

Ar 22 Hydref 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddiweddariadau arfaethedig i'r rhestr o weithgareddau sydd wedi'u heithrio yng Nghymru. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 14 Ionawr, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 25 Mawrth.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai pedwar gweithgaredd arall gael eu heithrio o'r broses drwyddedu forol. Yn dilyn asesiad gan swyddogion, mae ail ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd i ofyn am safbwyntiau ar y pedwar gweithgaredd ychwanegol sy'n cael eu cynnig i'w heithrio. Dyddiad cau yr ymgynghoriad oedd 27 Mehefin.

## Gwella mapiau sy'n dangos ehangder a dosbarthiad cynefinoedd Atodiad I

**Sefydliad Arweiniol:** Cyfoeth Naturiol Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus (wrth i ddata newydd ddod ar gael)

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Mae'r gwaith hwn yn darparu tystiolaeth allweddol i gefnogi'r broses o reoli ardaloedd ACA (e.e. cyngor ar waith achos) ac adrodd ar lefel genedlaethol. Mae'n ymwneud yn bennaf â choladu data trydydd parti (e.e. data aml-belydr UKHO) i ddiweddaru mapiau.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Yn 2024-2025 mae detholiad o fapiau Atodiad I wedi'u diweddaru er mwyn llywio Adroddiadau Rheoliad 9a. Byddant yn cael eu diweddaru ar MapDataCymru erbyn diwedd y flwyddyn: **Nodweddion Cynefinoedd Erthygl 17 Morol | MapDataCymru**:

- Dolydd heli Iwerydd.
- Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod.
- Aberoedd.
- Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel.
- Strwythurau tanfor a grëwyd gan nwyon sy'n gollwng.
- Riffiau.

Yn ogystal, diweddarwyd sawl map cynefin arfordirol Atodiad I, er nad yw llawer o'r rhain yn gorgyffwrdd ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Bydd mapiau cynefinoedd Atodiad I yn parhau i gael eu diweddaru.

## Mynd i'r afael ag effeithiau gwasgfa arfordirol ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig

**Sefydliad Arweiniol:** Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Bydd y prosiect hwn yn parhau i gasglu tystiolaeth er mwyn deall effeithiau gwasgu arfordirol ar ein rhwydwaith MPA, gan gynnwys ymgysylltu parhaus â thrafodaethau a phrosiectau ledled y DU.

Bydd gwaith yn parhau yng Nghymru i fwrw ymlaen â phrosiectau creu cynefinoedd er mwyn darparu cynefin arfordirol i wneud iawn am y tebygolrwydd o golli cynefinoedd yn sgil gwaith sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Dyfarnwyd contract 3 blynedd i ABPmer ym mis Hydref 2022 ac fe'i cwblhawyd yn llwyddiannus yn hydref 2024. Dadansoddodd y prosiect ddata amrywiol gan ddefnyddio GIS ac adnodd asesu gwasgfa arfordirol i ddadansoddi'r potensial ar gyfer gwasgfa arfordirol ar gynefinoedd MPA (colledion ac enillion) o dan ddau senario cynnydd yn lefel y môr, a thri senario rheoli gwahanol (cynhelir yr holl amddiffynfeydd presennol; cymhwysir polisïau'r Cynllun Rheoli Traethlin; ni chynhelir amddiffynfeydd a chânt felly fethu).

Hefyd, nododd y prosiect ardaloedd lle gellid lliniaru effeithiau gwasgfa arfordirol. Os oes gofod llety ar gael y tu ôl i adeileddau, gallai presenoldeb polisi Adlinio a Reolir ddarparu addasiadau posibl.

Mae allbynnau'r prosiect yn cynnwys data GIS, adnoddau asesu gwasgfa arfordirol, a dau adroddiad: **Deall graddfa debygol dirywiad nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig oherwydd gwasgfa arfordirol: Cyfrol 1 – methodoleg** a **Deall graddfa debygol dirywiad nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig oherwydd gwasgfa arfordirol: Cyfrol 2 – Canlyniadau a Thrafodaeth**. Yn y flwyddyn olaf, roedd ymdrech hefyd i ledaenu a hyrwyddo trafodaeth am y canlyniadau. Digwyddodd hyn drwy gyfres o weithdai mewnol ac allanol gyda rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru.

Mae ail gam y gwaith o dan Rwydweithiau Natur i fynd i'r afael â gwasgfa arfordirol newydd ddechrau, a bydd yn cynnwys gwella hygyrchedd i'r data a ddeilliodd o Gam 1 yn ogystal â rhywfaint o ddadansoddiad pellach; gwaith i archwilio materion a allai waethygu gwasgfa arfordirol (h.y. gweithredu 'cynnal y llinell' yn hytrach nag adlinio a reolir neu ddim ymyrraeth weithredol); ymchwilio i ddulliau o leihau rhwystrau i addasiadau i'r arfordir; a gweithio i ystyried sut y gellir diogelu cynefin newydd neu ddarpar gynefin yn effeithiol.

### Cyflawni'r camau gweithredu â blaenoriaeth o fewn y Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr sy'n fuddiol i'r rhwydwaith ardaloedd MPA yng Nghymru

**Sefydliad Arweiniol:** Partneriaeth Moroedd Glân Cymru, Llywodraeth Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Cwblhawyd

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Mae Partneriaeth Moroedd Glân Cymru yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr Cymru.

Mae'r cynllun tair blynedd presennol yn cydweddu'n agos â strategaethau tebyg sy'n canolbwyntio ar ddelio â sbwriel tir yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr yn ategu gwaith ehangach i fynd i'r afael â Phlastigau Untro a mentrau gwastraff yng Nghymru, gan roi dull 'atal yn y tarddiad' ar waith.

Bydd y bartneriaeth yn gwneud y canlynol:

- Adolygu arolygon blynyddol ar lanhau traethau a gynhelir ledled Cymru.
- Trafod a chynnig sut i ymdrin ag eitemau sbwriel sy'n dod i'r amlwg ac sy'n destun pryder ac yn effeithio ar yr amgylchedd morol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Ailgylchu Offer Pysgota Cymru.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae'r bartneriaeth yn parhau i gefnogi a dylanwadu ar nifer o feysydd polisi allweddol gan gynnwys; plastigau untro, microplastigau, offer pysgota a newid ymddygiad.

Mae'r bartneriaeth wedi helpu i gyflwyno cynllun ailgylchu offer pysgota cenedlaethol cyntaf y DU sy'n cynnwys dros 10 o borthladdoedd yng Nghymru.

### Datblygu Strategaeth Cadwraeth y DU ar gyfer Teulu'r Morfil

**Sefydliad Arweiniol:** Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

**Amserlen Cyflwyno:** Hydref 2025

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Nod y gwaith hwn yw datblygu dull cyson trwy'r DU o reoli'r pwysau a'r bygythiadau sy'n wynebu naw o rywogaethau dolffiniaid, llamidyddion a morfilod bach a welir yn fwyaf cyffredin yn nyfroedd y DU, y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn parhau i weithio ar y cyd ar y Strategaeth, gan obeithio llunio ymateb i'r ymgynghoriad yn hydref 2025.

## Asesu, a lle bo angen, rheoli effaith gweithgareddau pysgota masnachol ar Adaloedd Morol Gwarchodedig

**Sefydliad Arweiniol:** Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Nod y prosiect yw sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir o reoli pysgodfeydd masnachol mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd yn diogelu nodweddion gwarchodedig yn ddigonol, yn unol â Chyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yr UE.

Mae'r prosiect yn asesu'r rhyngweithio rhwng rhywogaethau a chynefinoedd ar y naill law a'r gwahanol fathau o offer pysgota ar y llaw arall. Defnyddir yr asesiadau hyn i weld a oes angen mesurau rheoli pysgodfeydd yn y dyfodol.

Yn 2022, roedd gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys:

- 9 asesiad yn ymwneud â mamaliaid vs rhwydi gosod.
- 40 asesiad yn ymwneud â chynefinoedd vs offer llusg symudol.
- 20 o asesiadau pellach y bydd y grŵp llywio'n cytuno arnynt.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd blwyddyn olaf yr asesiadau yn 2025 ac mae'r holl asesiadau blaenorol wedi'u cwblhau. Mae asesiadau blaenorol yn parhau i gael eu cwblhau cyn eu cyhoeddi. Gweler isod y ddau swp cyntaf a gyhoeddwyd:

- Cewyll a Thrapiau: **Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgodfeydd Cymru: cewyll a thrapiau | LLYW.CYMRU**
- Treillrwydi Dyfnforol: **www.gov.wales/assessing-welsh-fisheries-activities-project-demersal-trawls** a **www.llyw.cymru/prosiect-asesu-gweithgareddau-pysgodfeydd-cymru-treillongau-demersal**

## Gweithredu dull sy'n seiliedig ar risg o ymdrin â physgodfeydd

**Sefydliad Arweiniol:** Llywodraeth Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Mae'r gwaith hwn, sy'n cynnwys gorfodi ac erlyn oddi mewn i barth Cymru a'i Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn gweithredu dull gorfodi sy'n seiliedig ar risg ac a gaiff ei arwain gan wybodaeth, gan ddefnyddio gwelliannau technolegol i gynnal y ffocws ar weithgareddau uchel eu risg mewn pysgodfeydd.

Mae'n ffordd dda o atal gweithgareddau pysgota anghyfreithlon a chyfrannu at barhau i ddiogelu nodweddion MPA a chyflwr cyffredinol y rhwydwaith.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Yn ystod 2024-25, mae gostyngiad yn nifer y staff yn y tîm gorfodi wedi effeithio ar ein darpariaeth.
Mae adnoddau wedi canolbwyntio ar y prif risgiau, gan gynnwys cyflawni'r canlynol:

- Cwblhaodd Llongau Diogelu Pysgodfeydd 44 o batrolau a alluogodd 89 o arolygiadau o longau ar y môr.
- Ar ochr y cei, arolygwyd 186 o longau eraill.
- Cynhaliwyd 36 archwiliad o Drwyddedau Morol.
- Cynhaliwyd 27 archwiliad arall ar safleoedd Prynwyr Cofrestredig pysgod gwerthiant cyntaf.

Arweiniodd nifer o ymchwiliadau i droseddau pysgodfeydd, rhai difrifol eu natur, at achosion llys.
Arweiniodd pob un o'r 14 achos at erlyniad llwyddiannus a chyhoeddodd y llysoedd gosbau ariannol sylweddol.
Arweiniodd 9 ymchwiliad arall at Gosbau Gweinyddol Penodedig.

## Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru

**Sefydliad Arweiniol:** Llywodraeth Cymru, RSPB

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Nodau Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru yw cynhyrchu asesiadau i weld pa mor agored i niwed yw poblogaethau adar môr ar hyn o bryd yn nyfroedd Cymru, yr arfordir ac mewn nythfeydd yng Nghymru, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael:

- Nodi'r pwysau a'r bygythiadau pwysicaf i bob rhywogaeth, ac a oes unrhyw faterion cyffredin ar draws rhywogaethau.
- Asesu sut mae pwysau a bygythiadau allweddol yn cael eu rheoli ar hyn o bryd ac a oes bylchau yn y dystiolaeth sydd ar gael, ac yn y gwaith monitro a rheoli sydd ei angen.
- Datblygu a chyhoeddi argymhellion lefel uchel â blaenoriaeth y bydd angen i ymdrechion cadwraeth yng Nghymru ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella gwydnwch adar môr yng Nghymru.
- Sicrhau camau gweithredu cadwraeth ar gyfer adar môr trwy sefydlu mecanwaith cyllido addas, er mwyn cefnogi camau gweithredu unigol i fynd i'r afael â'r argymhellion lefel uchel.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror, ac mae'r ymatebion yn cael eu coladu yn barod i'w cyhoeddi yn gynnar yn yr Haf. Mae'r gweithgor wedi cwblhau'r holl asesiadau o ran bod yn agored i niwed ac mae'n gweithio tuag at greu cynllun arfaethedig o argymhellion ymhlith rhywogaethau a phwysau.

**Strategaeth gwarchod adar môr Cymru | LLYW.CYMRU**

## Prosiect Gwyliadwriaeth Ynys Gwales (Grassholm) (HPAI) yr RSPB **CAM GWEITHREDU NEWYDD**

**Sefydliad Arweiniol:** RSPB

**Amserlen Cyflwyno:** Parhaus

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Sefydlu dulliau monitro mwy cadarn a rheolaidd er mwyn olrhain achosion o Ffliw Adar Pathogenig Iawn a'u heffaith ar boblogaethau o Huganod.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Nod yr amcan hwn yn 2023 a 2024 oedd treialu gwyliadwriaeth dros dymor cyfan a monitro dyfodiad a lledaeniad y clefyd yn fanwl gywir. Hefyd, nod yr RSPB oedd monitro effaith y clefyd ar y nythfa o safbwynt cynhyrchiant. Byddai'r ddau nod hyn yn golygu bod modd i'r prosiect weithredu fel 'system rhybuddio cynnar' ar gyfer eraill yn y rhwydwaith MPA ac Awdurdodau Lleol ehangach. Ar sail y profiad yn 2023, roedd yr RSPB yn gallu cymhwyso'r hyn a ddysgwyd yn 2024. Dyma'r profiadau dysgu:

- Uchder hedfan drôn mwyaf addas ac effaith amodau'r tywydd ar eglurder y delweddau a oedd yn cael eu hastudio (amser y dydd, cysgodion ar ddiwrnodau heulog).
- Pwysigrwydd trawsluniau ailadroddadwy.
- Pa ardaloedd nad oedd modd eu hasesu'n gywir o'r dŵr/tir (pan nad oedd y drôn ar gael).
- Gwella dealltwriaeth o natur clwstwr o achosion yn hytrach na marwolaeth naturiol achlysurol yn y nythfa.

Mae angen ymweliadau rheolaidd er mwyn monitro dyfodiad a lledaeniad y clefyd, sy'n gallu bod yn ddrud i ynys anghysbell. Unwaith eto, roedd cyllid o'r prosiect hwn yn caniatáu i'r RSPB gynnal ymweliadau misol â'r ynys ar long siartredig a chyflogi gweithredwr drôn ar gyfer pob taith.

Ni chofnodwyd unrhyw achosion o Ffliw Adar Pathogenig Iawn ar y nythfa yn 2024. Diolch i waith monitro systematig rheolaidd, roedd modd gwneud gwiriadau misol cadarn, gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd o 2023 o ran uchder hedfan y drôn, ongl hedfan y drôn a sut i ddehongli'r data. Byddai cyrff anllywodraethol eraill sy'n gyfrifol am nythfeydd adar môr pwysig fel Skomer a Skokholm o fewn y rhwydwaith MPA wedi cael gwybod am unrhyw ganfyddiadau cynnar. Pe bai angen, byddai staff wedi bod mewn sefyllfa i gysylltu â Chyngor Sir Penfro er mwyn rhagrybuddio am unrhyw ailadrodd posibl o'r materion iechyd y cyhoedd a welwyd yn 2022 pan nad oedd 'system rhybuddio cynnar' o'r fath ar waith.

## Cyngor Sir Gwynedd – Prosiect sbwriel ac aflonyddu cymunedol

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Sir Gwynedd

**Amserlen Cyflwyno:** Cwblhawyd Mawrth 2023

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Ceisio datblygu a chyflwyno dull o gasglu leiniau pysgota i'w hailgylchu yng Nghymru. Nod y prosiect hwn yw ailgylchu hen leiniau pysgota, gan eu tynnu o'r amgylchedd morol a lleihau effeithiau negyddol ar bobl a bywyd gwyllt. Ariannwyd y prosiect hwn yn dilyn cais gan Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig Llywodraeth Cymru am gamau gweithredu ar gyfer Cynllun Gweithredu Rheoli'r Rhwydwaith MPA 2022-2023.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae cyfanswm o **14 o finiau** wedi'u gosod neu eu dyrannu ar safleoedd gwahanol yn y Bartneriaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru, ac mae mwy o leoliadau yn cael eu cwblhau.

## Deall dosbarthiad a goroesiad Gwangod yn y môr

**Sefydliad Arweiniol:** Prifysgol Abertawe

**Amserlen Cyflwyno:** Mawrth 2022

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Nod yr astudiaeth yw ymchwilio i farwolaethau, mudo a dosbarthiad tymhorol gwangod Afon Tywi mewn amgylcheddau morol a dŵr croyw, gan ganolbwyntio ar eu defnydd o ACA Bae Caerfyrddin a symudiadau ym Môr Hafren yn ehangach. Mae'r amcanion yn cynnwys tagio gwangod sy'n oedolion, gan ddefnyddio derbynyddion acwstig i olrhain eu symudiadau a'u goroesiad, dadansoddi data i nodi patrymau mewn marwolaethau a defnydd ardal, a chymharu canfyddiadau â data presennol o Afon Hafren sydd wedi'i storio yng nghronfa ddata olrhain Prifysgol Abertawe.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae'r astudiaeth beilot ar gyfer Afon Tywi wedi gwneud cynnydd sylweddol, ac amcanion allweddol wedi'u cyflawni. Nodwyd bod pysgota â gwialen yn effeithiol iawn, ac roedd y dull mewnblannu tag mewnol yn dangos cyfraddau goroesi uchel (tua 90%). Mae canfyddiadau rhagarweiniol yn dangos bod Ardal Forol Warchodedig Bae Caerfyrddin ac Aber Afon Hafren mewnol yn ardaloedd bwydo hanfodol ar gyfer gwangod yn ystod yr haf a dechrau'r gaeaf. Fodd bynnag, mae'r broses o gasglu data yn parhau, a disgwylir data ar oroesiad morol ym mis Ebrill-Mai 2024. Mae data rhai derbynwyr eto i'w gyflwyno. Nodir bod canfyddiadau ger Hinkley Point C yn awgrymu risgiau posibl i boblogaethau gwangod y DU.

**Y Camau Nesaf:**

Mae rhagor o gyllid wedi'i sicrhau gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, y Gronfa Rhwydweithiau Natur, Her Morlyn Llanw Llywodraeth Cymru, ac EDF er mwyn parhau i astudio gwangod ym Môr Hafren yn ystod 2024 a thu hwnt.

## Ymchwilio i effaith safleoedd tirlenwi ar yr arfordir ar nodweddion MPA

**Sefydliad Arweiniol:** Cyfoeth Naturiol Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** Mawrth 2022

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Nod y prosiect hwn yw gwella dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â safleoedd tirlenwi arfordirol i nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig a nodi lleoliadau blaenoriaeth lle mae'r mwyaf o angen am fesurau ataliol neu liniaru. Drwy ddadansoddi dros 900 o safleoedd tirlenwi ledled Cymru – llawer ohonynt wedi'u lleoli oddi mewn i ardaloedd MPA neu gerllaw – mae'r prosiect yn defnyddio dull rhwydwaith cyfan o asesu effeithiau safle-benodol, nodi nodweddion bregus, ac archwilio opsiynau ymarferol ar gyfer ymyrraeth. Y nod yn y pen draw yw llywio camau gweithredu mwy costeffeithiol sydd wedi'u targedu ac sy'n atal dirywiad yng nghyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig, lleihau costau rheoli adweithiol yn y dyfodol, a gwella gwydnwch ledled yr amgylchedd morol.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Cyflwynodd y prosiect asesiad lefel uchel yn nodi pa safleoedd tirlenwi arfordirol yng Nghymru sy'n peri'r bygythiad mwyaf posibl i nodweddion cynefinoedd Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Nododd y prosiect ardaloedd sy'n peri pryder mawr, yn enwedig Aber Afon Dyfrdwy, Cilfach Tywyn, ac Aber Hafren. Hefyd, canfuwyd safleoedd eang sy'n wynebu bygythiad mawr ar draws yr holl Ardaloedd Gweithredol. Mae'r canfyddiadau yn cynnig trosolwg strategol er mwyn blaenoriaethu rhagor o ymchwiliadau safle-benodol manylach.

Mae'r astudiaeth wedi dod i ben, a dylai ei chanlyniadau lywio gwaith yn y dyfodol i nodi lefelau risg a deall yn well sut i gludo gwastraff tirlenwi a sut mae'n effeithio ar amgylcheddau morol.

Mae'r adroddiad terfynol ar gael yma: **Ymchwilio i effaith safleoedd tirlenwi ar yr arfordir ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig**

## Rhaglen Rhwydweithiau Natur Morol CNC

**Sefydliad Arweiniol:** Cyfoeth Naturiol Cymru

**Amserlen Cyflwyno:** 2022 i 2025

**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**

Mae prosiectau morol Rhwydweithiau Natur wedi cwblhau ail flwyddyn o raglen tair blynedd. Bydd yr holl adroddiadau a chyflawniadau yn cael eu cynhyrchu yn y flwyddyn olaf sy'n cynrychioli penllanw'r rhaglen tair blynedd ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau. Sefydlwyd prosiectau fel rhaglenni gwaith tair blynedd, a bydd y flwyddyn olaf yn canolbwyntio ar gyflawni'r allbynnau, sy'n cynnwys cwblhau allbynnau tystiolaeth, argymhellion rheoli a chyflwyno mesurau rheoli ac adfer.

Hefyd, mae'r rhaglen wedi chwilio am gyfleoedd i ddarparu gwybodaeth am brosiectau yn ehangach a chydweithio i raddau mwy â rhanddeiliaid allanol, gan arwain at y mentrau canlynol:

- Saith cydweithrediad academaidd sy'n cefnogi allbynnau'r prosiectau trwy waith ymchwil wedi'i dargedu.
- Saith cyfle lleoliad i fyfyrwyr neu ariannu rhannol ar gyfer gwaith ôl-raddedig.
- Cyflwyno prosiectau Rhwydweithiau Natur morol mewn cynadleddau a digwyddiadau amrywiol fel Dyfodol Arfordirol, Porcupine, ReMeMaRe, Sioe Frenhinol Cymru etc.
- Gweithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys Grwpiau Awdurdodau Perthnasol ACA, Awdurdodau Harbwr, Awdurdodau Lleol, Grwpiau Pysgota, Defra etc.
- Darparu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol a straeon ehangach yn y wasg yn rheolaidd.

**Crynodeb o Gynnydd:**

Mae'r prosiectau canlynol wedi'u cwblhau neu bron â'u cwblhau:

1) Rhoi mesurau rheoli ar waith i gasglu abwyd ledled y rhwydwaith MPA yng Nghymru.
2) Cynllunio ar gyfer Bioddiogelwch Rhywogaethau Estron Goresgynnol Morol ledled y Rhwydwaith MPA.
3) Ymchwilio i ddirywiad cynefinoedd a rhywogaethau benthig, a nodi a chyflwyno'r mesurau rheoli sydd eu hangen i wrthdroi colli bioamrywiaeth a chynyddu gwydnwch morol.
4) Atal a rheoli sbwriel morol a llongau adfeiliedig ledled rhwydwaith MPA Cymru.
5) Gwella Cyngor ar Gadwraeth Forol.
6) Polderau Glanfa Fawr Tredelerch.
7) Arolwg Mamaliaid Morol Acwstig Cymru.
8) Deall graddfa debygol dirywiad nodweddion MPA oherwydd gwasgfa arfordirol.